



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y **Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**

C L Philpott  
A J Jeffery

**Y Cynghorydd(wyr)**

C A Holley  
J W Jones

**Y Cynghorydd(wyr)**

Y V Jardine  
E T Kirchner

**Aelodau**

**Cyfetholedig(wyr)**

T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

Louise Gibbard

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

**Swyddog(ion)**

Peter Field  
Lucy Friday  
Amy Hawkins  
David Howes  
Liz Jordan

Prif Swyddog - Ataliaeth, Lles a Chomisiynu  
Prif Swyddog - Trawsnewid (Gwasanaethau i Oedolion)  
Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchgu Tlodi  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Swyddog Craffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Chris Holley gysylltiad personol.

**2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

**3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**4 Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion

Rhoddodd Lucy Friday, Prif Swyddog Trawsnewid, y diweddaraaf i'r Panel ar yr eitem hon, gan gynnwys sut mae'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni, y cynnydd ar rai o'r rhaglenni a'r ffocws arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y Panel i ba raddau y mae dadansoddiad o'r penderfyniadau cymdeithasol ar gyfer gofal yn cael eu defnyddio ar draws cylch gwaith y cyngor. Clywsant mai'r ymagwedd yw canolbwyntio ar y cynnig cymorth cynnar sy'n canolbwyntio ar incwm, cyflogadwyedd, diogelu'r cyflenwad bwyd a phenderfyniadau cymdeithasol ehangach eraill o iechyd a gofal.
- Roedd y Panel yn croesawu'r bwriad i weithio ar y cyd â sefydliadau eraill a holodd y Panel a oedd gwybodaeth y cyfeirir ati fel 'theori rhwydwaith' yn cael ei defnyddio. Clywodd y Panel y byddai'r Adran yn bwrw ymlaen â rhai o'r egwyddorion a grybwyllwyd gan y Panel, yn enwedig wrth ystyried y cynnig cymorth cynnar.
- Teimlai'r Panel fod y Rhaglen Trawsnewid yn dibynnu'n fawr ar dechnoleg gynorthwyol. Cytunodd Swyddogion ei fod yn hollbwysig i lawer o'r agenda drawsnewid, sy'n ymwneud â hyrwyddo annibyniaeth a chaniatau i bobl fyw yn eu cartrefi eu hunain, fodd bynnag un offeryn yn unig yw hwn ac mae angen iddo fynd law yn llaw â'r holl ddatblygiadau eraill.
- Gofynnodd y Panel am y sefyllfa bresennol o ran denu pobl i weithio i'r cyngor. Clywodd fod y Gyfarwyddiaeth yn ystyried nifer o strategaethau gwahanol. Mae cadw staff hefyd yn elfen allweddol o raglen y gweithlu.
- Mewn perthynas â'r strwythur gwaith cymdeithasol, clywodd y Panel fod yr amserlen wedi'i diwygio, ac y cytunir ar y cynnig erbyn mis Gorffennaf 2023 gyda'r gwaith o roi'r cynnig ar waith yn dibynnu ar yr opsiwn y cytunir arno.
- Gofynnodd aelod newydd o'r Panel sut roedd yr elfen ymarferol yn rhan o'r rhaglen, gan ei bod yn ymddangos yn ddamcaniaethol ac yn strategol iawn. Fe'i hysbyswyd bod y Rhaglen Trawsnewid yn ymwneud â gwelliannau a newid a gwneud pethau'n wahanol yn hytrach na gweithgarwch busnes fel arfer. Rhoddodd Swyddogion sicrwydd ei bod yn rhan o ymagwedd gyflwyno fawr at gefnogi unigolion.

## 6 Arfarniad Opsiynau ar gyfer Technoleg Gynorthwyol a Larymau Cymunedol

Rhoddodd Lucy Friday, Prif Swyddog Trawsnewid, ddiweddariad i'r Panel ar yr asesiad o'r gwasanaeth, y gwaith gwerthuso opsiynau a gwblhawyd a'r penderfyniad a wnaed yn sgîl hynny ym mis Ebrill 2022 ar gyfer opsiwn dau - cadw larymau cymunedol a thechnoleg gynorthwyol yn fewnol a datblygu cynnig technoleg gynorthwyol.

Pwyntiau Trafod:

- Cytunodd y Panel mai opsiwn dau yw'r opsiwn gorau. Cadarnhaodd Swyddogion fod y papur yn dangos y sefyllfa ddiweddaraaf ym mis

Tachwedd/Rhagfyr 2022 ac ar hyn o bryd mae pwysau o hyd o ran goblygiadau'r gyllideb, ac mae angen buddsoddi mewn adnoddau i dyfu'r gwasanaeth.

- Gofynnodd y Panel faint o dechnoleg gynorthwyol fydd yn croesi'r ffin rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG ac os ymchwiliwyd i hyn. Clywodd y Panel fod y mwyafrif o atgyfeiriadau yn dod gan dimau therapi a chyda gwybodaeth am berfformiad yn gwella, gellir rhannu'r wybodaeth hon yn gyfrinachol â phartneriaid.
- Nid yw'r Panel yn glir am y berthynas fwriadedig rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac lechyd a chredir bod y DU yn symud tuag at fonitro cleifion gartref. Gofynnodd y Panel os taw dyma'r fath o bartneriaeth y byddai'r rhanbarth am symud tuag ati, sy'n ymddangos yn well nag opsiwn dau. Clywodd y Panel fod y ffordd bresennol o weithio gyda phartneriaid lechyd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn maent yn ei wneud a phwy maent yn gweithio gyda nhw, ond nawr mae cyfleoedd i wella hyn yn y dyfodol.
- Soniodd y Panel am yr ystafelloedd arddangos ar gyfer larymau cymunedol a gofynnodd a oes cyfle i Gydlynwyr Ardaloedd Lleol amlygu'r ddarpariaeth i bobl. Bydd Swyddogion yn tynnu sylw at hyn ac yn sicrhau bod CALI yn ymwybodol o'r ddarpariaeth.

## 7 Monitro Perfformiad

Gwnaeth Amy Hawkins, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi, friffio'r Panel ar yr adroddiad perfformiad at gyfer mis Tachwedd 2022 a dywedodd wrth y Panel fod perfformiad yn gwella ar ddechrau 2023.

Pwyntiau Trafod:

- Cadarnhaodd Swyddogion fod 90% o ofalwyr yn cael cynnig asesiad i ofalwyr ond dim ond 50% o'r bobl sy'n cael cynnig asesiad sy'n manteisio ar y cyfle ac mae rhesymau amrywiol am hyn.
- Gofynnodd y Panel a yw'r Gyfarwyddiaeth yn cynnal asesiadau wyneb yn wyneb eto ers COVID. Clywyd bod cymysgedd o asesiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, yn dibynnu ar beth sy'n gweithio i'r unigolyn.
- Gofynnodd y Panel am salwch tymor hir ac a oes llawer o staff wedi dioddef o COVID hir. Clywodd y Panel y bu gwelliant mewn salwch tymor hir ac nid yw COVID hir yn un o'r prif achosion mwyach.

## 8 Rhaglen Waith 2022-23

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Mater a godwyd dan Unrhyw Fater Arall:

Roedd Aelod o'r Panel yn pryderu wrth glywed bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol ryddhau pobl o'r ysbyty heb roi cynlluniau gofal ar waith, a gofynnodd y Panel a oedd hyn yn gywir. Hysbyswyd y Panel nad yw'r awdurdod hwn wedi derbyn unrhyw gyfarwyddid o'r fath. Anfonwyd dogfen gyfathrebu i fyrddau

Cofnodion y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion (Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2023)  
Parhad

iechyd ond nid awdurdodau lleol, a oedd wedi arwain at bryder, trafodaethau amrywiol ac eglurhad. Sicrhawyd y Panel nad oedd unrhyw beth wedi newid yn y rhanbarth hwn o ran prosesau rhyddhau a chytunodd y Cyfarwyddwr i ddarparu gwybodaeth i'r Panel ynghylch y ddogfen gyfathrebu.

Camau Gweithredu:

- Bydd y Panel yn derbyn gwybodaeth am bwy anfonodd y cyfarwyddyd ac i bwy, o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm